

Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Gogledd Cymru

Gwybodaeth gefndir i Aelodau (Ileyg) Annibynnol

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC y Gogledd) yn gorff rhanbarthol cyhoeddus newydd a sefydlwyd gan Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 ymhellach i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae aelodaeth CBC y Gogledd yn cynnwys 6 Aelod o'r Cyngor, un ar gyfer pob awdurdod lleol yng ngogledd-orllewin Cymru, ac aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Mae gan CBC y Gogledd gyfrifoldeb am baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol, Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, ac am wneud beth bynnag y bernir ei fod yn angenrheidiol i wella neu hyrwyddo lles economaidd yr ardal.

Mae CBC y Gogledd yn chwilio am dri aelod annibynnol i ymuno â'n His-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio newydd am gyfnod o bedair blynedd.

Bydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o lywodraethu corfforaethol CBC y Gogledd. Diben yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fydd adolygu a chraffu ar faterion ariannol CBC y Gogledd a rhoi ffocws annibynnol ar y trefniadau archwilio, sicrwydd, perfformio ac adrodd sy'n sail i safonau llywodraethu ac ariannol da.

Bydd gan yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 9 aelod, gan gynnwys 6 Chynghorydd a 3 aelod (Ileyg) annibynnol. Cynhelir y cyfarfodydd yn chwarterol mewn unrhyw flwyddyn galendr, ac ar-lein ar hyn o bryd.

Amgaeir yr hyn a ganlyn:

- Cylch gorchwyl yr Is-bwyllgor - bydd yn gweithredu gan roi sylw dyladwy i ganllaw arfer da Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).
- Disgrifiad rôl a manyleb person – rydym yn chwilio am weithwyr proffesiynol annibynnol eu meddyliau, sy'n barod i gefnogi'r Is-Bwyllgor drwy eu gwybodaeth a'u profiad personol mewn meysydd sy'n berthnasol i'w rôl.

Er nad oes angen gwybodaeth fanwl am lywodraeth leol, disgwylir y byddai gan ymgeiswyr posibl ddiddordeb mewn materion sy'n ymwneud â'r sector cyhoeddus ac archwilio. Bydd hyfforddiant anwytho yn cael ei ddarparu i bob aelod newydd. Bydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei gadeirio gan Berson Lleyg, felly mae parodrwydd a gallu i gyflawni'r rôl hon yn ddymunol.